

Atodiadau

Atodiad 1 – Cynllun Gwers Ysgol A

Athro dan hyfforddiant		Dosbarth:	Blwyddyn 5
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Cymraeg	Dyddiad:	03.02.20
Ffocws Gwers:	Darllen a deall darn ysgrifennedig yn annibynnol		
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	Cymraeg ➤ Darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol. ➤ Dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant, e.e. <i>safbwyntiau neu agweddau'r awdur</i>. ➤ Ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, yr arddull, y naws, y drefn a chyflwyniad y testun gan ddewis tystiolaeth i gefnogi safbwynt		
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd			
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			
Safon SAC: Rhwydweithiau a Chymunedau Proffesiynol			

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):
Ar ddiwedd y wers bydd y 3 disgybl yn medru darllen a deall testun ysgrifenedig am rygbi'r chwe gwlad yn annibynnol 1. Darllen y testun ysgrifenedig yn annibynnol 2. Darllen ac ateb y cwestiynau am y testun yn annibynnol

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
---	--

1.Darllen y testun ysgrifenedig yn annibynnol - Ø Darllen y testun am ‘rygbi’r chwe gwlad’ yn unigol 2.Darllen ac ateb y cwestiynau am y testun yn annibynnol - Ø Darllen y cwestiynau yn unigol - Ø Ateb y cwestiynau yn unigol - Ø Ysgrifennu’r atebion mewn brawddegau llawn - Ø Darllen y testun i ganfod yr atebion 3.Chwilio a defnyddio adnoddau ychwanegol yn annibynnol ➤ Darganfod geiriadur yn y dosbarth a defnyddio’r geiriadur yn synhwyrol.	1.Darllen y testun ‘Rygbi’r chwe gwald’ yn unigol. 2.Darllen y set o gwestiynau yn unigol. Ysgrifennu’r atebion i’r cwestiynau mewn brawddegau llawn yn eu llyfrau Cymraeg. 3.Cerdded i’r silff lyfrau i ganfod geiriadur. Chwilio am eiriau penodol yn y geiriadur .
--	--

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Byddaf yn: - Ø Cyflwyno nod y wers a'r amcanion dysgu - Ø Gofyn i'r plant "beth yw campwriaeth y Chwe Gwlad?" - Ø Darllen y meini prawf llwyddiant allan gan egluro'r hyn ni ddeallant. - Ø Egluro i'r plant sut i gofnodi'u hatebion yn daclus ac yn drefnus yn eu llyfrau. - Ø Esbonio mai tasg annibynnol yw hon a fydd angen iddynt gwblhau yn annibynnol gan ddefnyddio unrhyw adnoddau o gwmpas y dosbarth fel cymorth. - Ø Sicrhau fod pawb yn deall - Ø Dosbarthu'r llyfrau Cymraeg, y testunau darllen a deall a'r cwestiynau - Ø	Disgwylir i'r disgyblion: - Ø Ymateb ar lafar i'r cwestiwn 'beth yw campwriaeth y Chwe Gwlad?' - Ø Gwrando ac ymateb i'r meini prawf llwyddiant. - Ø Gwrando a deall sut y disgwylir iddynt gofnodi eu hatebion. - Ø Ymateb os maent yn deall neu beidio.	- Ø Darn darllen a deall (wedi'u gwahaniaethu) - Ø Llyfrau Cymraeg - Ø Set o gwestiynau (wedi'u gwahaniaethu) ➤

Addysgu a Dysgu Craidd	- Ø Gwyllo annibyniaeth y plant - Ø Annog y disgyblion i fod mor annibynnol ag y gallant, os ydynt yn gofyn am gymorth	<u>Gwahaniaethu</u> <u>Plentyn 1</u> Testun (2 tudalen) Disgwylir y disgybl i ddarllen y testun am rygbi'r chwe gwlad ac ateb 12 cwestiwn mewn brawddegau llawn. <u>Plentyn 2</u> Testun 2 (2 tudalen) Disgwylir y disgybl i ddarllen y testun am rygbi'r chwe gwlad ac ateb 12 cwestiwn mewn brawddegau llawn. <u>Plentyn 3 (3 tudalen)</u> Disgwylir y disgybl i ddarllen y testun am rygbi'r chwe gwlad ac ateb 14 cwestiwn mewn brawddegau llawn.	➤ Darn darllen a deall (wedi'u gwahaniaethu) ➤ Llyfrau Cymraeg ➤ Set o gwestiynau (wedi'u gwahaniaethu) ➤ Adnoddau ysgrifennu ➤ Geiriaduron
Sesiwn Gloi	- Ø Gofynnir i'r disgyblion i rannu unrhyw ffeithiau a ddysgwyd am rygbi'r chwe gwlad - Ø Canmol y plant am eu hymdrech	Ø Ymateb ar lafar wrth rannu'r ffeithiau a ddysgwyd am rygbi'r chwe gwlad	

Atodiad 2 – Cynllun Arsylwi Ysgol A

Cynllun Arsylwi

(Ysgol A)

03.2.20

Diffiniad: Mae angen i chi gwblhau'r dasg yn annibynnol.

	Plentyn 1	Plentyn 2	Plentyn 3
Sawl gwaith y gofynnwyd am gymorth athro?	III	~~III~~ I	0
Sawl gwaith y defnyddiwyd yr amgylchedd dysgu am gymorth?	0	0	0
Sawl gwaith y gofynnwyd am gymorth ffrind?	I	III	IIII
Ydy'r plant yn edrych am adnoddau ychwanegol?	Ydyn *	Na	Na
Sawl un sydd wedi cwblhau'r gwaith?	0	0	0
Sawl un sydd wedi cwblhau'r gwaith yn gywir?	✓	✓	✓
Oes disgybl yn gwrthod gwneud y gwaith?	Na	Na	Na.
Sawl un sy'n gofyn os y gallent weithio gyda phartner?	0	0	0
Sylwadau ychwanegol:	* iPad a geiriadur	-	-

Atodiad 3 – Cynllun Adfyfyrio Ysgol A

Safbwynt y disgyblion- Cyfwelliad

Oedd y 3 disgybl wedi dysgu unrhyw beth?
P5: 'Oedd ni di gwobd mwy o ffacts am y chwech gwlad'
P6: 'Mae Lloegr wedi colli y chwech gwlad un deg pedwar waith'
P5: 'Mae y tarian pencampwr yn 55 mil o arian'
P4: 'Oedd y tarian wedi cymryd dau cant o awr i greu'

Beth oedd teimladau'r disgyblion wrth wneud y dasg annibynnol?
P4: 'oedd e'n iawn'
P5: 'nerfus' ac 'yn y canol'
P6: 'hapus' ac 'yn y canol'
C: 'oeddech chi wedi mwynhau'r wers?'
P5 a P6: 'Ydw'

Beth fyddai wedi helpu'r disgyblion i wneud y dasg yn well?
P4: 'Geiriadur'
P5: 'y fel sheets gyda fel y ffacts amyn nhw'
P6: 'Geiriadur'

Beth oedd barn y disgyblion am ystyr annibyniaeth/gweithio'n annibynnol?
P4: 'ar eich hunain' (P5 yn cytuno)

Beth fyddai'r disgyblion yn newid am y wers?
P4 a P5: 'gweithio'n fwy cyflym'
P5: 'cal fel un sheet gyda'r gyd o wybodaeth achos t'i'n cael fel llawer o sheets a t'i'n fel mico nhw lan.'
P6: 'cal un ar gyfer pob un ar y bwrdd' (taflen wybodaeth)

Safbwynt y darpar athrawes

- Roedd pawb yn deall y dasg ar ddechrau'r wers ac yn ymwybodol bod angen gweithio'n annibynnol
- Roedd pawb yn gallu darllen y dam yn unigol
- Ar ddechrau'r dasg gofynnwyd cwestiwn 'ydwi fod ysgrifennu'r cwestiwn mas neu jyst ateb?'. Yna gofynnwyd 'yfe mewn brawddegau llawn, ie?' Ar ôl hyn, sylwais eu bod yn gweithio'n dawe ar y dasg trwy gydol y wers.
- Gofynnwyd Plentyn 5 cwestiwn 'sai'n siŵr am y gamp lawn achos ma fe'n gweud fan hyn ... oh ie ... hwn. Sdim ots.' Arhosais yn dawe a gwrando wrth iddo weithio hyn allan yn annibynnol
- Pob tro roeddwn i'n cerdded heibio Plentyn 6 roedd eu llaw yn codi ac roedd e'n dweud 'Miss sai'n deall.' Dywedais wrtho am ddarllen y cwestiwn eto a chwilio am y gair yn y testun darllen a deall. Dywedodd 'ie fi wedi.' Yna gofynnais 'beth sydd angen i ti wneud os wyt ti'n styc ar gwestiwn?' Yn syth ymatebodd 'FfAA.'
- Awgrymwyd y defnydd o eiriadur i Plentyn 6 pan ofynnodd 'beth ydy'r gair yma'n meddwl?' ond rhoddodd eu pen ar y bwrdd a rhoi eu dwylo areu pen cyn codi ac edrych ar y testun darllen a deall.
- Roedd Plentyn 5 wedi hunan asesu yn erbyn y meini prawf llwyddiant tua diwedd y wers
- Ni ddefnyddiwyd unrhyw adnoddau ychwanegol yn ystod y wers.
- Gofynnwyd Plentyn 5 a 6 eu cyfeillion ambell gwestiwn, ond gweithiwyd ar gyflymder gwahanol.
- Ni chwblheuwyd plentyn 4, 5 neu 6 y cwestiynau i gyd erbyn diwedd y wers. Roedd pob disgybl wedi ateb y cwestiynau hyn yn gywir ac mewn brawddegau llawn.

Safbwynt y llenyddiaeth

- Dylanwad cyfoedion, athro, a'r amgylchedd dysgu
- Pwysigrwydd gwahaniaethu'r tasgau i wahanol alluoedd o blant (Cremin a Bumett, 2018).
- Effaith cynllun eistedd
- Rôl yr athro o ran scaffaldu'r dysgu (cyd-fynd gyda damcaniaeth Vygotsky)

Safbwynt cyfoedion

- Naws y dosbarth yn siaradus ac yn llawn bwrwm.
- Erbyn 11:35yb pawb wedi colli canolbwyntio i raddau.

Plentyn 4

- Gofyn os oedd angen ysgrifennu'r cwestiwn yn ei llyfr.
- Hollol annibynnol ac yn dawe am weddill y dasg.
- Er holl fwrwm y dosbarth parhawyd yn annibynnol gan anwybyddu gweddill ar y bwrdd.
- Awyddus i gwblhau'r dasg yn annibynnol ac yn ddistaw.
- Plentyn yn edrych ar ei gwaith ac yn copïo ond ni ymatebodd plentyn
- Unwaith gofynnwyd am ffaith ar ddiwedd y wers ymatebodd yn syth.
- Ddim wedi bennu'r gwaith.
- Ar y cyfan teimlwyd fod plentyn 4 wedi ymdrechu i weithio'n annibynnol gan anwybyddu'r aflonyddwch ar ei bwrdd. Teimlwyd fel ei bod eisiau plesio wrth ofyn cwestiynau tu hwnt i'r dasg e.e. "oes angen imi gofnodi'r cwestiynau".

Plentyn 5

- Edrych dros y bwrdd at ei ffrindiau gyferbyn
- Helpu'i gyfoedion gyda'r dasg
- Ymateb i gwestiynau ei gyfoedion, ond yn ansicr o un gan ddweud wrtho i ofyn i'r athrawes.
- Rhodd ei ben yn ei ddwylo – gan gyfleu dryswch.
- Ddim yn hapus i'w gyfaill ei gopïo yn hytrach cynigwyd cymorth iddo.
- Adnabod fod cwestiwn 5 a 9 yr un peth. (Er nad oedd â'r un ystyr, geiriwyd yr un peth)
- Ond ddim wedi bennu'r gwaith yn yr amser.
- Ar y cyfan teimlwyd fod plentyn 5 wedi ymdrechu i gwblhau'r dasg yn annibynnol ac yn cynnig help i'w cyfoedion yn hytrach na gadael iddynt gopïo ei waith.

Plentyn 6

- Edrych yn ansicr ar ddechrau'r wers
- Colli bob diddordeb erbyn 11:12yb (12 munud mewn i'r wers).
- 11:30yb – bored – codi i fynd i'r ty bach
- Wedi gofyn am ystyr gair- athrawes wedi awgrymu edrych mewn geiriadur
- Siaradus iawn yn ei gnŵp ond ddim am y dasg o gwbl.
- Ddim wedi gwblhau'r dasg
- Diffyg canolbwyntio ar ôl cyfnod byr o amser
- Ymddengys y gwaith yn heriol iddo.
- "Fi'n stuck"
- Cododd i fynd i'r tŷ bach
- Cwestiynu beth oedd angen iddo ddefnyddio – ddim yn deall.
- Gofyn i'w gyfaill "ydy hwn yn iawn"
- Ymateb i'r athrawes yn ddryslud gan rhoi ei ben ar y bwrdd a'i ddwylo ar ei ben.
- Ar y cyfan teimlwyd fod plentyn 6 wedi gweld y dasg yn anodd am iddo golli ffocws ar y dasg yn gynnar iawn. Wrth i'r athro agosáu tueddwyd ofyn cwestiwn yn syth neu erbyn diwedd dywedir ei fod yn "stuck" er mwyn iddo dderbyn eglurhad.

Atodiad 4 – Cwestiynau cyntaf gwreiddiol (Ysgol A)

I

1. Pryd cafodd y twrnaint gyntaf ei chynnal?
2. Pa wledydd sydd yn y twrnaint erbyn heddiw?
3. Sawl chwaraewr sydd angen mewn carfan?
4. Beth yw 'Gamp Lawn'?
5. Nodwch ddwy ffaith am Darian y Pencampwyr.
6. Pa wledydd sy'n medru ennill y 'Goron Driphlyg'?
7. Cwblhewch y frawddeg:
Mae'n draddodiad i wobrwyo'r tîm sy'n dod yn olaf gyda ____.
8. Sawl gwlad sydd heb dderbyn y llwy bren erioed?
9. Ym mha wlad mae stadiwm 'Ariva'?
10. Ysgrifennwch ddwy ffaith diddorol am Rygbi Chwe Gwlad.
11. Yn eich barn chi, pa ffaith am y chwe gwlad yw'r fwyaf diddorol?

C

1. Pryd cafodd y twrnaint gyntaf ei chynnal?
2. Pwy oedd y wlad diwethaf i ymuno'r twrnaint?
3. Sawl chwaraewr sydd mewn tîm?
4. Beth yw Gamp Lawn?
5. Pa wlad sydd wedi ei hennill y nifer mwyaf o weithiau?
6. Disgrifiwch tarian y pencampwyr.
7. Beth yw'r Goron Driphlyg?
8. Pwy sy'n derbyn y llwy bren?
9. Pa wlad sydd wedi ei hennill y nifer mwyaf o weithiau?
10. Beth yw enw'r stadiwm yng Nghymru?
11. Yn eich barn chi, nodwch y ffaith mwyaf diddorol am y chwe gwlad?

T

1. Pryd cafodd y twrnaint gyntaf ei chynnal?
2. Beth oedd y twrnaint yn cael ei alw rhwng 1883 ac 1909?
3. Pam a'i galwyd yn hyn?
4. Beth ddigwyddodd yn y flwyddyn 2000?
5. Pwy oedd yn chwarae yn y twrnaint cyn y chwaraewyr proffesiynol?
6. Disgrifiwch darian y pencampwyr.
7. Beth ddigwyddodd yn 1845?
8. Disgrifiwch y gwahaniaeth rhwng y 'Gamp Lawn' a'r 'Gwan Driphlyg'.
9. Beth yw'r wobwr llwy bren?
10. Pa wledydd sydd heb dderbyn y llwy bren erioed?
11. Pa stadiwm sy'n dal y mwyaf o bobl?
12. Er bod y wobwr wedi bodoli ers cychwyn y twrnaint, ni ddwyfarnwyd y darian 'go iawn' tan 2006. Beth mae'r awdur yn ei olygu wrth ddefnyddio'r gair 'dyfarnwyd'? Defnyddiwch eiriadur i ddarganfod ddiffiniad.
13. Pam cafodd y twrnaint ei ganslo ddeuddeg gwaith?
14. Yn eich barn chi, pa nodwch y ffaith mwyaf diddorol am y chwe gwlad, a pham?

Atodiad 5 – Cynllun Arsyliwi Ysgol B

Arsylwad 2

Cynllun Arsyliwi
Diffiniad: Mae angen i chi gwblhau'r dasg yn annibynnol.

	T Plentyn 4	C Plentyn 5	G Plentyn 6
Sawl gwaith y gofynnwyd am gymorth athro?			1
Sawl gwaith y defnyddiwyd yr amgylchedd dysgu am gymorth?			
Sawl gwaith y gofynnwyd am gymorth ffrind?		1	
Ydy'r plant yn edrych am adnoddau ychwanegol?			
Sawl un sydd wedi cwblhau'r gwaith?	/	/	/
Sawl un sydd wedi cwblhau'r gwaith yn gywir?			
Oes disgybl yn gwrthod gwneud y gwaith?			
Sawl un sy'n gofyn os y gallent weithio gyda phartner?			
Sylwadau ychwanegol:			

Atodiad 6 – Cynllun adfyfrio Ysgol B

Safbwynt y darn ar athrawes

- Esbonies fod yna dasg annibynnol sef darllen a deall, holais beth oeddwn yn golygu wrth annibynnol.
- Plentyn 1 a 2 wedi ateb gan ddweud yn 'gweithio ar ben eich hunan'. Gofynnodd plentyn 1 wedi holi am beth oedd y dyddiad, nod a theitl i osod yn ei llyfr. Roedd y plant i gyd yn gweithio'n dawel ac yn annibynnol ar y cyfan. Gwelwyd y plant yn darllen y testun cyn edrych ar y cwestiynau.
- Plentyn 3 yn gofyn cwestiwn am y testun – methu dod o hyd i'r ateb yn y darn. Plentyn 1 wedi drysu bach ar gwestiwn 13 (angen geiriadur).
- Bydd angen newid y gair 'dyfarnwyd' o'r amhersoniol i'r ferf 'dyfarnu' i sicrhau dealltwriaeth y plant wrth ganfod y gair yn y geiriadur.
- Plentyn 1 wedi gofyn a allai fynd i ôl geiriadur ar gyfer ateb y cwestiwn Defnyddir i'pad i chwilio am y gair 'dyfarnwyd'.
- Ni chwblhawyd y plentyn 1, 2 neu 3 y cwestiynau i gyd erbyn diwedd y wers. Roedd pob disgybl wedi ateb y cwestiynau hyn yn gywir.
- Ar ddiwedd y wers gofynnwyd i'r plant i enwi ffeithiau oeddent wedi dysgu am y testun (rygbi'r chwe gwlad). Roedd plentyn 1 a 2 yn cynnig ateb yn syth (plentyn 1 yn hyderus iawn, plentyn 2 bach yn swil, cynigodd plentyn 3 ddim ateb).

Safbwynt cyfoedion

Plentyn 1

- Gofyn i'r athrawes os oedd angen dyddiad a theitl
- Yn darllen ac yn ysgrifennu'n dawel
- Codi llaw ac aros am gymorth yn dawel
- Dangos yr ateb i'w cyfall yn y testun
- Adnabod gwall yn y testun a'i gwestiynu
- Cwestiwn yn dweud defnyddio geiriadur ond gofynnwyd cyn mynd i'w estyn.
- Dweud wrth ei chyfaill i beidio defnyddio'r geiriadur penodol hwnna am nad oedd "dyfarnwyd" ynddo.
- Ymchwilio tri geiriadur a geiriadur ar-lein er mwyn ceisio darganfod gair anfodolaethedig heb ofyn am gymorth. Tri geiriadur (llyfr) a geiriadur ar-lein Bangor erbyn diwedd y wers gyda'r pendantrwydd o ddarganfod y gair "dyfarnwyd" yn annibynnol, yn hytrach na "dyfarnu".
- Gofyn a wnaï ddigon cyn diwedd y wers.
- Pawb arall wedi stopio – parhaodd i edrych yn y geiriadur.
- Gofyn i'r athrawes "ydy hwn yn ddigon?"
- Ar y cyfan roedd plentyn 1 yn gweithio'n annibynnol gan weithio'n gyflym. Yn ychwanegol i hyn cynigir cymorth i'w chyfaill gan beidio ateb y cwestiwn iddi ond cynnig ble y gellir derbyn y wybodaeth i'w helpu.

Plentyn 2

- Ar ddechrau'r dasg yn gweithio'n dawel ar y dasg wrth edrych ar y testun a'r cwestiynau
- Yn pwyntio at y lluniau yn y darn ac yn dangos i'w ffrind
- Chwarae o gwmpas â'r papur.
- (9:20yb) troi yn syth at gymorth athro, ond wrth i'r athro gynorthwyo eraill, rhoir y gorau iddi gan edrych ar waith ei chyfaill a'i dargopio.
- Gwelwyd yn chwarae o gwmpas gyda'r darnau o bapur yng nghanol y wers a phwyso yn ôl yn eu cadair. Pan ddaeth yr athrawes heibio codwyd eu llaw i ofyn cwestiwn gan bwyntio at y testun darllen a deall.
- Ar y cyfan teimlwyd bod Plentyn 2 yn gweithio'n annibynnol gan fod yn gweithio'n dawel trwy gydol y wers a dim ond wedi gofyn am gymorth yr athrawes un waith.

Plentyn 3

- Yn darllen ac yn ysgrifennu'n dawel
- Troi i siarad gyda chyfaill.
- Cyfaill yn gofyn cwestiwn - plentyn 3 hefyd yn swnn gan wrando ar ymateb yr athro.
- Colli canolbwyntio – dechrau lliwio i' chas bensil, gan adlewyrchu ansicrwydd a phryder gofyn am gymorth yr athrawes. (9:23yb)
- Ei chyfaill yn helpu iddi ateb cwestiwn heb iddi ofyn.
- Ar y cyfan teimlwyd fod plentyn 3 wedi gweithio'n eithaf annibynnol ar y cychwyn ond wedyn wedi colli diddordeb gan adlewyrchu ansicrwydd a phryder gofyn i'r athrawes. Wrth i'r athro cynnig cymorth i ddisgybl arall ar y bwrdd gwrandawari astud ar y cymorth y derbynir y plentyn hwnnw gan gofnodi yn ei llyfr.

Safbwynt y disgyblion - Cyfweiliad

Beth wnaethoch chi mwynhau am y wers?

P1- gwneud y dasg

P2 a 3 yn cytuno gan siglo eu penau

Pam?

P1 achos fi'n hoffi rygbi

P2 a 3 yr un peth

Beth oedd teimladau'r disgyblion wrth wneud y dasg annibynnol?

P3- hapus

P2 a 1 hapus

Ar raddfa o 1-3 sut oeddych yn teimlo am wneud y dasg yn annibynnol. 1 yn wych a 3 yn ansicr.

P1 1

P2-2

P3-2

Beth fyddai wedi helpu'r disgyblion i wneud y dasg yn well?

P1- Partner

P2- partner

P3- partner

Oedd digon a adnoddau gyda chi?

P1,2,3 Oedd

Pa rhai ddefnyddiwch chi?

P1-Geiriadur p2- geiriadur p3 geiriadur

Beth oedd barn y disgyblion am ystyr annibyniaeth/gweithio'n annibynnol?

P1 – gweithio ar ben eich hunan.

P2 – yr un peth

P3 – independence

Beth wnaethoch chi ddysgu yn y wers?

Neb yn ateb – rhywbeth am y testun?

P1 – mae stadiwm Lloegr yn dal y fwyaf o bobl – dim ond y gwledydd yn y deyrnas unedig oedd yn chwarae.

Beth fyddai'r disgyblion yn newid am y wers?

P2 – gweithio gyda phartner

Safbwynt y llenyddiaeth

- Defnydd o dechnoleg a rhoi dewis o adnoddau i helpu disgyblion.
- Defnyddio meini prawf llwyddiant i helpu disgyblion gymryd fwy o gyfrifoldeb dros ddysgu eu hunain. Cyd-fynd gyda strategaethau asesu ar gyfer dysgu (Black a William, 1998)
- Dylanwad cyfoedion, athro, a'r amgylchedd dysgu.
- Mae ffactorau mewnol ac allanol yn dylanwadu ar ddysgu annibynnol (Meyer et al, 2008) e.e sgiliau datrys problemau a'r amgylchedd ddysgu.

Atodiad 7 – Cwestiynau adnewyddol Ysgol C

1. Pryd cafodd y twrnaint gyntaf ei chynnal?
2. Pa wledydd sydd yn y twrnaint erbyn heddiw?
3. Sawl chwaraewr sydd angen mewn carfan?
4. Beth yw 'Gamp Lawn'?
5. Nodwch ddwy ffaith am Darian y Pencampwyr.
6. Pa wledydd sy'n medru ennill y 'Goron Driphlyg'?
7. Cwblhewch y frawddeg:
Mae'n draddodiad i wobrwyo'r tîm sy'n dod yn olaf gyda _____
8. Sawl gwlad sydd heb dderbyn y llwy bren erioed?
9. Ym mha wlad mae stadiwm 'Ariva'?
10. Ysgrifennwch ddwy ffaith diddorol am Rygbi Chwe Gwlad.
11. Yn eich barn chi, pa ffaith am y Chwe Gwlad sydd fwyaf ddiddorol?

1. Pryd cafodd y twrnaint gyntaf ei chynnal?
2. Pwy oedd y wlad ddiwethaf i ymuno'r twrnaint?
3. Sawl chwaraewr sydd mewn tîm?
4. Beth yw'r 'Gamp Lawn'?
5. Pa wlad sydd wedi ennill y 'Gamp Lawn' y nifer mwyaf o weithiau?
6. Disgrifiwch darian y pencampwyr.
7. Beth yw'r 'Goron Driphlyg'?
8. Pwy sy'n derbyn y llwy bren?
9. Pa wlad sydd wedi ennill y 'llwy bren' y nifer mwyaf o weithiau?
10. Beth yw enw'r stadiwm yng Nghymru?
11. Yn eich barn chi, nodwch y ffaith fwyaf diddorol am Gampwriaeth y Chwe Gwlad?

1. Pryd cafodd y twrnaint gyntaf ei chynnal?
2. Beth oedd y twrnaint yn cael ei alw rhwng 1883 ac 1909?
3. Pam a'i galwyd yn hyn?
4. Beth ddigwyddodd yn y flwyddyn 2000?
5. Pwy oedd yn chwarae yn y twrnaint cyn y chwaraewyr proffesiynol?
6. Disgrifiwch darian y pencampwyr.
7. Beth ddigwyddodd yn 1845?
8. Disgrifiwch y gwahaniaeth rhwng y 'Gamp Lawn' a'r 'Goron Driphlyg'.
9. Beth yw'r wobwr llwy bren?
10. Pa wledydd sydd heb dderbyn y llwy bren erioed?
11. Pa stadiwm sy'n dal y mwyaf o bobl?
12. Er bod y wobwr wedi bodoli ers cychwyn y twrnaint, ni ddyfarnwyd y darian 'go iawn' tan 2006. Beth mae'r awdur yn ei olygu wrth ddefnyddio'r gair 'dyfarnwyd' (dyfarnu)? Defnyddiwch eiriadur i ddarganfod diffiniad.
13. Pam cafodd y twrnaint ei ohirio deuddeg gwaith?
14. Yn eich barn chi, nodwch y ffaith fwyaf diddorol am Gampwriaeth y Chwe Gwlad, a pham?

Atodiad 8 – Cynllun Arsylwi Ysgol C

(Ysgol C) 4.2.20

Cynllun Arsylwi

Diffiniad: Mae angen i chi gwblhau'r dasg yn annibynnol.

	Plentyn ~~7~~ ^T	Plentyn ~~8~~ ^C	Plentyn ~~9~~ ^G
Sawl gwaith y gofynnwyd am gymorth athro?	1	0	11
Sawl gwaith y defnyddiwyd yr amgylchedd dysgu am gymorth?	0	0	0
Sawl gwaith y gofynnwyd am gymorth ffrind?	0	11	1
Ydy'r plant yn edrych am adnoddau ychwanegol?	* Ydyn	* Ydy	* Ydy
Sawl un sydd wedi cwblhau'r gwaith?	X	✓	✓
Sawl un sydd wedi cwblhau'r gwaith yn gywir?	✓	✓	✓
Oes disgybl yn gwrthod gwneud y gwaith?	0	0	0
Sawl un sy'n gofyn os y gallent weithio gyda phartner?	0	0	0
Sylwadau ychwanegol:	* pyramid ansoddeinay atainocki	* geiniadur	* geiniadur

↳ gofyn
os oedd
hawl cael defnyddio adnodd.

Atodiad 9 – Cynllun Adfyfrio Ysgol C

Safbwynt v dargpar athrawes

- Pob un o'r tri disgybl wedi gweithio'n dawel ac yn annibynnol heb ofyn llawer o gwestiynau – teimlwyd fel eu bod wedi mynd i'r afael â'r dasg yn llwyddiannus.
- Defnyddir y tri geiriadur plentyn 8 a 9 yn annibynnol, 7 wedi gorfod gofyn beth oedd ystyr y cwestiwn hwnnw.
- Defnyddir plentyn 7 adnoddau ychwanegol (pyramid iaith a geiriadur). Defnyddir plentyn 8 a 9 geiriadur wrth wneud y dasg.
- Wrth i'r sawl y caiff eu harsylwi gofyn cwestiynau –ymddengys y cwestiynau a ofynnwyd yn rhai dibwys er enghraifft "oes angen ysgrifennu'r cwestiwn allan", "sawl ffaith sydd angen imi roi".
- Wrth imi ganiatáu bod y disgyblion yn eistedd ar bwys eu ffrindiau, gwelwyd eu bod yn gweithio'n dawel ac yn gyflym.
- Er imi gerdded heibio'n aml – bach iawn oedd y cwestiynau a ofynnwyd y tri a arsylwyd imi. Wedi dweud hynny gofynnwyd eu cyfeillion ambell gwestiwn, ond gweithiwyd ar gyflymder gwahanol.
- Cwblhawyd plentyn 8 a plentyn 9 y dasg yn eithaf cyflym felly roedd yn ofynnol imi osod cwestiynau ychwanegol iddynt.
- Roedd pob disgybl wedi ateb y cwestiynau yn gywir
- Roedd y dasg yn gweddu i ddiddordeb ac yn gyfforddus i allu pob un ohonynt.

Safbwynt cyfoedion

Plentyn 8 a 9 wedi cwblhau'r wers erbyn 9.40yb.

Plentyn 7

- Plentyn 7 yn darllen y cwestiynau a'r testun darllen a deall yn dawel trwy gydoly wers igyd
- Siaradodd gyda'r athrawes unwaith yn ystod y dasg
- Codwyd y pyramid 'ansoddeiriau' ac atalnodi llyny ac edrych arno, cyn ysgrifennu yn eu llyfr - dewis wthio'r ffiniau o annibyniaeth gan ddefnyddio adnoddau tu hwnt i'r hyn a dosbarthwyd ar eich lyfr
- Edrychodd mewn geiriadur yn ystod y wers
- Ni lwyddodd i orffen y gwaith ond adlewyrchodd gwaith safonol.
- Ar y cyfan, teimlwyd bod Plentyn 7 wedi gweithio'n annibynnol drwy weithio'n dawel ar y dasg a dewis i ddefnyddio'r adnoddau oedd ar y bwrdd yn barod i'w helpu i gwblhau'r dasg a osodwyd.

Plentyn 8

- Plentyn 8 yn darllen y cwestiynau a'r testun yn dawel ar ddechrau'r wers.
- Yng nghanol y wers roedd e'n pwyntio at y darn darllen a deall wrth edrych ar gyfallia sibrwd.
- Plentyn 8 yn troi rownd a sibrwd i Blentyn 9; ar yr un pryd yn pwyntio at un o'r cwestiynau am y testun darllen a deall.
- Plentyn 8 yn edrych mewn geiriadur ar adegau
- Gorfennodd y dasg annibynnol a dechrau dasg ymestyn – mae plentyn 8 a 9 yn dangos y wybodaeth ar sgrin yr iPad i'w gilydd a siarad.
- Ar y cyfan, teimlwyd bod Plentyn 8 wedi gwblhau'r dasg yn annibynnol ar adegau. Y rheswm am hyn yw oherwydd gwelwyd Plentyn 8 yn sibrwd gyda'i ffrind yn ystod y wers a phwyntio ar y destun darllen a deall sy'n awgrymu efallai bod Plentyn 8 wedi defnyddio HACA (gofyn i'w cyfall) am gymorth i gwblhau'r dasg annibynnol.

Plentyn 9

- Plentyn 9 yn ateb y cwestiwn "beth yw gwaith annibynnol?" ar ddechrau'r wers gan ymateb "gweithio ar ben ein hunain."
- Plentyn 9 yn pwyntio at y testun darllen a deall a sibrwd gyda chyfall (unwaith yn unig)
- Plentyn 9 yn codi ac yn edrych yn y geiriadur ar y bwrdd
- Plentyn 9 yn codi llaw a dweud "wedi bennu" a dangos eu llyfr i'r athrawes (30 munud o'r wers)
- Plentyn 9 wedi gorfennu y gwaith ac yn dechrau'r dasg ymestyn - mae plentyn 8 a 9 yn dangos y wybodaeth ar sgrin yr iPad i'w gilydd a siarad.
- Gwelwyd fwy o symudiad wrth blentyn 9 wrth iddo ymestyn a phwyntio at y cadair a chwarae gyda phen ar y bwrdd erbyn diwedd y wers.
- Ar y cyfan teimlwyd bod Plentyn 9 wedi gweithio'n annibynnol yn ystod y dasg annibynnol cyn iafgan eu bod yn darllen ac yn ysgrifennu yn dawel a bod e wedi llwyddo i gwblhau'r dasg. Ond wrth symud ymlaen i'r dasg ymestyn teimlwyd bod gallu'r plentyn i ganiatbwyntio wedi lleihau wrth iddo symud a chwarae gyda pen.

Safbwynt v disgyblion- Cyfweiliad

Beth oedd eich barn chi am y wers?

P7 – Odd en iawn.

P9 – Joies i fe.

Beth wnes di fwynhau?

P9 – Joies i'r ffeithiau

Pam iawn? (P7)

P7- Jyst achos sain reli lico rygbi.

Beth oedd eich teimladau wrth wneud y dasg yn annibynnol?

P7 – dwi'n iawn gyda gweithio'n annibynnol.

P8 – Ie, gallu neud en amser dyhunant.

P9 – A fi

Ar raddfa 1 – 3 sut y teimlwyd wrth wneud y dasg yn annibynnol? (1 – hyderus, 3 – ddim mor hyderus)

P7 – 1 hyderus

P8 – 1

P9 – 2 ffin meddwl

Beth fyddde wedi'ch helpu i gwblhau'r dasg?

P8 – Mynd dros i wirio'r gwaith.

P7 – gweithio'n galetach

Oedd digon o adnoddau i helpu chi gwblhau'r dasg yn annibynnol?

P7 – oedd

P8 – oedd

P9 – oedd

Pa adnoddau defnyddioch chi?

P7 – Pyramid iaith a'r daflen

Yn eich barn chi beth yw ystyr annibyniaeth?

P7 – Dim siarad gyda ffrindiau

P8 – Dim helpu

P9 – gweithio ar ben dyhunant

Beth neloch chi ddisysgu? Beth i chi'n gallu gwneud nawr we chi ffilli neud cyn ny, os oes rhywbeth?

P7 – Ffeindio gwybodaeth yn gloiach

P8 – Ie

P9 – we ni ddim yn gwybod taw Johnny Wilkos neu rhywbeth wedd wedi sgoro 35 points yn rhyw gêm.

Pe bai'r wers yn cael ei addysgu eto, be fyddwch chi'n newid?

P7 – cyflymder we ni'n gweithio ar

P8 – Ie

P9 - neud en gloiach.

Safbwynt v llenyddiaeth

- Strategaethau asesu ar gyfer dysgu; asesu cyfoedion a hunan asesu (Black a William, 1998; Hattie, 2012).
- Adnoddau ychwanegol a lleoliad yr adnoddau o fewn y dosbarth
- Rôl yr athro o ran sgaffaldu'r dysgu - eto, cyfeirio at ddamcaniaeth Vygotsky.
- Dysgu annibynnol yn erbyn dysgu cymdeithasol (Pritchard, 2017).

Atodiad 10 – Gwaith P7

Dydd Nawrth y 1^{af} o Rhwygor 1020

Nod y wers: Adnabod naturdodion ddrilen a deall yr amlyggarol.

1. Cychwyn y ^{turnament} turnamen gynsa yn 1883.
2. Yn egyptol a hyn, rhwng 1883 a 1909 oedd y ^{turnament} turnament yn cael ei alw yn rhencampwrioneth y Cychwyned Cartref.
3. Cychwyn hyn, gan mai pedair gwlad y Feirnos Unedig yn unig oedd yn chwarae.
4. Yn y flwyddyn 2000, ymrodd yr Ffidal y ^{turnament} turnament, far o i Ffrainc ymuno, a gellir y ^{turnament} turnament yn 7 turnament chwarae Gwlad.
5. Fodd Byrd, dim chwaraewr profesiynol oedd yn chwarae ar y dechrau, ac wr un odeg, chwaraewr amaturiol oedd yn chwarae.
6. Mae baron y Pencampwr yn enwog gyda y byd, ac cynharaf 200 awr i'w chwarae, defnyddir 7Kg o orion sterling, ac mae'n wera £55,000.
7. Yn 1845, ysgriennwyd y chedau pel-droed gan oblygion ysgol Rwyd. Un o ddigwyddiadau arwyddocaol yn natlygiad rygbi oedd hyn!
8. Y gwahanolaeth rhwng y 'Gom dau' ac Goron Driphlyg yw bod mae'r 'Gom dau' yn os os tim yn ennill plump gen yn y turnament Dywedir bod hi'n amodol i'w hysgu. Yn egyptol a hyn y 'Goron Driphlyg' yn wael arbennig. O gynydd, dim ond gwlad y Feirnos Unedig gwydd enillu hyn, sef Gorn, dlogr, yr Alban ac Iwerddon.
9. Mae'r wael llwyd tren yn draddodiad. Mae'r gr hoi wael llwyd tren i'r tim Sybil wedi ad oia yn y gwladleuwaeth. Mae'r Ffidal wedi eu hennill 14 gwlad. Yr Alban 4 gwlad, A Chymru a Ffrainc 1 gwlad.
10. Dygi dlogr a Iwerddon enill wedi derbyn llwyd tren.
11. Stadium Twickenham yn dlogr Sybil yn dal mwy o bwl, gyda capasari o 82,000.
12. Diffiniad 'Dyffwrdd' yw - Pencampwr a chwaraewr plwy Sybil wedi ennill cyswllleuwaeth.

Atodiad 11 – Ffurflen Gydsynio Rhieni

FFURFLEN GYDSYNIO

TEITL Y PROSIECT: I ba raddau mae plant yn gweithredu'n annibynnol yng nghyfnod allweddol 2?

Enw'r Ymchwilydd: [REDACTED]

1. Cadarnhaf fy mod wedi darllen a deall y ffurflen wybodaeth sydd wedi ei dyddio 29.01.2020 ar gyfer yr astudiaeth uchod. [REDACTED]
2. Deallaf fod cyfranogiad fy mhlentyn yn wirfoddol ac rwy'n rhydd i dynnu'r caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. [REDACTED]
3. Rwy'n deall y gall fy mhlentyn ddewis tynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. [REDACTED]
4. Rwy'n deall y bydd y wybodaeth a roddir gan fy mhlentyn yn cael ei defnyddio mewn aseiniad Prifysgol. [REDACTED]
5. Deallaf na fydd fy enw yn ymddangos ar unrhyw bryd. [REDACTED]
6. Cytunaf i fy mhlentyn gymryd rhan yn yr astudiaeth uchod. [REDACTED]

[REDACTED]
Enw'r plentyn

[REDACTED]
Llofnod y rhiant

[REDACTED]
Dyddiad

Ar ôl ei llenwi, dychwelwch yn yr amlen a roddwyd i dderbynfa'r ysgol erbyn yr 30ain o Ionawr 2020.

Diolch.

29.01.2020

FFURFLEN WYBODAETH

TEITL Y PROSIECT: I ba raddau mae plant yn gweithredu'n annibynnol yng nghyfnod allweddol 2?

Annwyl Rhiant / Warcheidwad:

Fy enw i yw [REDACTED] ac rwy'n astudio am gymhwyster TAR yn Yr Athrofa, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Ar hyn o bryd, rydw i'n ddarpar athro/athrawes yn Ysgol y Frenni ac yn addysgu yn nosbarth eich plentyn.

Hoffwn wahodd eich plentyn i gymryd rhan yn fy mhrosiect ymchwil. Teitl y prosiect yw 'I ba raddau mae plant yn gweithredu'n annibynnol yng nghyfnod allweddol 2' ac rwy'n anelu at archwilio sut mae eich plentyn yn cydymffurfio â thasg annibynnol. Trwy gyfranogiad eich plentyn, rwy'n gobeithio canfod os mae plant yn elwa o waith annibynnol.

Yn ystod yr ymchwil mi fyddaf yn arsylwi eich plentyn wrthi'n cwblhau tasg annibynnol ar y cyd â dwy fyfyrwraig arall. Bydd gofyn i ni yn ystod y broses i gyfweld â'ch plentyn o fewn grŵp (a fydd yn cael ei recordio) ar ôl y wers i ennyn eu hadborth.

Bydd pob enw yn cael ei gadw'n hollol gyfrinachol a dim ond minnau a'm partner ymchwil fydd yn ei adnabod. Mae cyfranogiad eich plentyn yn yr astudiaeth hon yn gwbl wirfoddol felly gallwch chi neu'ch plentyn dynnu'n ôl o'r astudiaeth ar unrhyw adeg. Bydd gofyn i'ch plentyn roi ei gydsyniad cyn dechrau'r astudiaeth yn ogystal.

Ar ôl dadansoddi'r data a gafwyd o'r arsylwadau gwersi a'r cyfweiliad grŵp, byddwn yn falch o roi copi o'r canfyddiadau i chi ar eich cais. Bydd canlyniadau'r ymchwil yn cael eu trafod mewn aseiniad Prifysgol a fydd yn cyfrannu at fy nghwrs TAR. Caiff canlyniadau'r astudiaeth hon eu storio ar OneDrive y brifysgol a chaiff yr holl ddata crai eu dinistrio unwaith y bydd yr asesiad wedi'i farcio.

Diolch i chi ymlaen llaw am eich amser. Os oes unrhyw gwestiynau'n codi, mae croeso i chi gysylltu â mi ar unrhyw bryd.

Yn gywir,

[REDACTED]

Atodiad 12 – Ffurflen Gydsynio Cynorthwywyr

Annwyl ddisgybl,

Hoffem weld sut yr ydych yn ymateb i dasg yn annibynnol. Nyddwn yn edrych i weld beth yr ydych yn gwneud yn ystod y dasg ac yn gwrandao ar yr hyn yr ydych yn ei ddweud. Byddwn yn cofnodi'r gwybodaeth yma ar bapur.

Ar ôl i'r wers orffen, hoffwm ofyn cwestiynau i chi, a dau blentyn arall, am y dasg annibynnol hon. Byddwn ni'n recordio'r hyn a ddywedwch drwy ddefnyddio iPad.

Croeso ichi dynnu nôl o'r ymchwil ar unrhyw adeg ac i wrthod ateb/ymateb ar unrhyw bryd.

Diolch.

[Redacted signature]

Os ydych chi'n hapus i gymryd rhan, ysgrifennwch eich enw a'ch oedran yn y bocs glas.

Enw wedi'i ddileu

Os nad ydych chi yn hapus i gymryd rhan, ysgrifennwch eich enw a'ch oedran yn y bocs pinc

[Empty pink box for name and age]

Atodiad 13 – Cynllun Gwers Ysgol B

Athro dan hyfforddiant		Dosbarth:	Blwyddyn 5 & 6
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Cymraeg	Dyddiad:	03.02.20
Ffocws Gwers:	Darllen a deall darn ysgrifennedig yn annibynnol		
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	<u>Cymraeg</u> ➤ Darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol. ➤ Dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant, e.e. <i>safbwyntiau neu agweddau'r awdur</i> . ➤ Ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, yr arddull, y naws, y drefn a chyflwyniad y testun gan ddewis tystiolaeth i gefnogi safbwynt		
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd			
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			
Safon SAC: Rhwydweithiau a Chymunedau Proffesiynol			

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):
Ar ddiwedd y wers bydd y 3 disgybl yn medru darllen a deall testun ysgrifenedig am rygbi'r chwe gwlad yn annibynnol 1. Darllen y testun ysgrifenedig yn annibynnol 2. Darllen ac ateb y cwestiynau am y testun yn annibynnol 3. Chwilio a defnyddio geiriadur (llyfr neu'n electronig) yn annibynnol

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
---	---

1.Darllen y testun ysgrifenedig yn annibynnol ➤ Darllen y testun am ‘rygbi’r chwe gwlad’ yn unigol 2.Darllen ac ateb y cwestiynau am y testun yn annibynnol ➤ Darllen y cwestiynau yn unigol ➤ Ateb y cwestiynau yn unigol ➤ Ysgrifennu’r atebion mewn brawddegau llawn ➤ Darllen y testun i ganfod yr atebion 3.Chwilio a defnyddio adnoddau ychwanegol yn annibynnol ➤ Darganfod geiriadur yn y dosbarth a defnyddio’r geiriadur yn synhwyrol. ➤ Darganfod iPad a defnyddio yn synhwyrol	1.Darllen y testun ‘Rygbi’r chwe gwald’ yn unigol. 2.Darllen y set o gwestiynau yn unigol. Ysgrifennu’r atebion i’r cwestiynau mewn brawddegau llawn yn eu llyfrau Cymraeg. 3.Cerdded i’r silff lyfrau i ganfod geiriadur. Chwilio am eiriau penodol yn y geiriadur .
--	--

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	Byddaf yn: ➤ Cyflwyno nod y wers a’r amcanion dysgu ➤ Gofyn i’r plant “beth yw campwriaeth y Chwe Gwlad?” ➤ Darllen y meini prawf llwyddiant allan gan egluro’r hyn ni ddeallant. ➤ Egluro i’r plant sut i gofnodi’u hatebion yn daclus ac yn drefnus yn eu llyfrau. ➤ Esbonio mai tasg annibynnol yw hon a fydd angen iddynt gwblhau yn annibynnol gan ddefnyddio unrhyw adnoddau o gwmpas y dosbarth fel cymorth. ➤ Sicrhau fod pawb yn deall ➤ Dosbarthu’r llyfrau Cymraeg, y testunau darllen a deall a’r cwestiynau ➤ Gofyn i’r plant i ysgrifennu dyddiad ac i ludo’r meini prawf llwyddiant yn eu llyfrau Cymraeg.	Disgwylir i’r disgyblion: ➤ Ymateb ar lafar i’r cwestiwn ‘beth yw campwriaeth y Chwe Gwlad?’ ➤ Gwrando ac ymateb i’r meini prawf llwyddiant. ➤ Gwrando a deall sut y disgwylir iddynt gofnodi eu hatebion. ➤ Ysgrifennu dyddiad a gludo’r meini prawf llwyddiant yn eu llyfrau ➤ Ymateb os maent yn deall neu beidio.	➤ Darn darllen a deall (wedi’u gwahaniaethu) ➤ Llyfrau Cymraeg ➤ Set o gwestiynau (wedi’u gwahaniaethu) ➤ Meini Prawf Llwyddiant

Addysgu a Dysgu Craidd	➤ Gwyllo annibyniaeth y plant ➤ Annog y disgyblion i fod mor annibynnol ag y gallant, os ydynt yn gofyn am gymorth	<u>Gwahaniaethu</u> <u>Plentyn 1</u> Testun (2 tudalen) Disgwylir y disgybl i ddarllen y testun am rygbi'r chwe gwlad ac ateb 12 cwestiwn mewn brawddegau llawn. <u>Plentyn 2</u> Testun 2 (2 tudalen) Disgwylir y disgybl i ddarllen y testun am rygbi'r chwe gwlad ac ateb 12 cwestiwn mewn brawddegau llawn. <u>Plentyn 3 (3 tudalen)</u> Disgwylir y disgybl i ddarllen y testun am rygbi'r chwe gwlad ac ateb 14 cwestiwn mewn brawddegau llawn. Gofynnir hefyd i fynd i ddefnyddio geiriadur i ddeall ystyr y gair 'dyfarnu'	➤ Darn darllen a deall (wedi'u gwahaniaethu) ➤ Llyfrau Cymraeg ➤ Set o gwestiynau (wedi'u gwahaniaethu) ➤ Adnoddau ysgrifennu ➤ Geiriaduron ➤ Ipad
Sesiwn Gloi	➤ Gofynnir i'r disgyblion i rannu unrhyw ffeithiau a ddysgwyd am rygbi'r chwe gwlad ➤ Canmol y plant am eu hymdrech	➤ Ymateb ar lafar wrth rannu'r ffeithiau a ddysgwyd am rygbi'r chwe gwlad	

Atodiad 14 – Cynllun Gwers Ysgol C

Athro dan hyfforddiant		Dosbarth:	Blwyddyn 6
Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc	Cymraeg	Dyddiad:	04.02.20
Ffocws Gwers:	Darllen a deall darn ysgrifennedig yn annibynnol		
Cysylltiadau ystyrion â'r Cwricwlwm	<u>Cymraeg</u> ➤ Darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau at ddibenion penodol. ➤ Dehongli syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant, e.e. <i>safbwyntiau neu agweddau'r awdur</i> . ➤ Ystyried yr hyn y maent yn ei ddarllen/gwyllo gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r syniadau, yr iaith, yr arddull, y naws, y drefn a chyflwyniad y testun gan ddewis tystiolaeth i gefnogi safbwynt		
Cysylltiadau ystyrion â: Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd			
Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)			
Safon SAC: Rhwydweithiau a Chymunedau Proffesiynol			

Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy):
Ar ddiwedd y wers bydd y 3 disgybl yn medru darllen a deall testun ysgrifenedig am rygbi'r chwe gwlad yn annibynnol 1. Darllen y testun ysgrifenedig yn annibynnol 2. Darllen ac ateb y cwestiynau am y testun yn annibynnol 3. Defnyddio geiriadur, iPad neu unrhyw adnodd arall yn annibynnol

Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu)	Asesu Dysgu'r Disgyblion Tystiolaeth (Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir)
1.Darllen y testun ysgrifenedig yn annibynnol ➤ Darllen y testun am 'rygbi'r chwe gwlad' yn unigol 2.Darllen ac ateb y cwestiynau am y testun yn annibynnol ➤ Darllen y cwestiynau yn unigol ➤ Ateb y cwestiynau yn unigol ➤ Ysgrifennu'r atebion mewn brawddegau llawn ➤ Darllen y testun i ganfod yr atebion 3.Chwilio a defnyddio adnoddau ychwanegol yn annibynnol ➤ Darganfod geiriadur yn y dosbarth a defnyddio'r geiriadur yn synhwyrol. ➤ Darganfod iPad a defnyddio yn synhwyrol ➤ Darganfod 'adnoddau ychwanegol' a'u defnyddio'n synhwyrol	1.Darllen y testun 'Rygbi'r chwe gwlad' yn unigol. 2.Darllen y set o gwestiynau yn unigol. Ysgrifennu'r atebion i'r cwestiynau mewn brawddegau llawn yn eu llyfrau Cymraeg. 3.Canfod y geiriadur ar y bwrdd. Chwilio am eiriau perthnasol.

Amser	Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol (Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol)	Tasgau Disgyblion (Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref)	Adnoddau (Gan gynnwys gofyniad lechyd a Diogelwch)
Cyfnod agoriadol (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol)	➤ Cyn i'r wers ddechrau byddaf yn rhoi'r adnoddau (geiriadur ar y byrddau yn barod) ➤ Byddaf yn argraffu'r testun darllen a deall (back to back) Byddaf yn: ➤ Cyflwyno nod y wers a'r amcanion dysgu ➤ Gofyn i'r plant "beth yw campwriaeth y Chwe Gwlad?" ➤ Darllen y meini prawf llwyddiant allan gan egluro'r hyn ni ddeallant. ➤ Egluro i'r plant sut i gofnodi'u hatebion yn daclus ac yn drefnus yn eu llyfrau. ➤ Esbonio mai tasg annibynnol yw hon a fydd angen iddynt gwblhau yn annibynnol gan ddefnyddio unrhyw adnoddau o gwmpas y dosbarth fel cymorth. ➤ Sicrhau fod pawb yn deall	Disgwylir i'r disgyblion: ➤ Ymateb ar lafar i'r cwestiwn 'beth yw campwriaeth y Chwe Gwlad?' ➤ Gwrando ac ymateb i'r meini prawf llwyddiant. ➤ Gwrando a deall sut y disgwylir iddynt gofnodi eu hatebion. ➤ Ysgrifennu dyddiad a gludo'r meini prawf llwyddiant yn eu llyfrau ➤ Ymateb os maent yn deall neu beidio.	➤ Darn darllen a deall (wedi'u gwahaniaethu) ➤ Llyfrau Cymraeg ➤ Set o gwestiynau (wedi'u gwahaniaethu) ➤ Meini Prawf Llwyddiant

	➤ Dosbarthu'r llyfrau Cymraeg, y testunau darllen a deall a'r cwestiynau ➤ Gofyn i'r plant i ysgrifennu dyddiad ac i ludo'r meini prawf llwyddiant yn eu llyfrau Cymraeg.		
Addysgu a Dysgu Craidd	➤ Gwyllo annibyniaeth y plant ➤ Annog y disgyblion i fod mor annibynnol ag y gallant, os ydynt yn gofyn am gymorth	<u>Gwahaniaethu</u> <u>Plentyn 1</u> Testun (2 tudalen) Disgwylir y disgybl i ddarllen y testun am rygbi'r chwe gwlad ac ateb 12 cwestiwn mewn brawddegau llawn. <u>Plentyn 2</u> Testun 2 (2 tudalen) Disgwylir y disgybl i ddarllen y testun am rygbi'r chwe gwlad ac ateb 12 cwestiwn mewn brawddegau llawn. <u>Plentyn 3 (3 tudalen)</u> Disgwylir y disgybl i ddarllen y testun am rygbi'r chwe gwlad ac ateb 14 cwestiwn mewn brawddegau llawn. Gofynnir hefyd i fynd i ddefnyddio geiriadur i ddeall ystyr y gair 'dyfarnu'	➤ Darn darllen a deall (wedi'u gwahaniaethu) ➤ Llyfrau Cymraeg ➤ Set o gwestiynau (wedi'u gwahaniaethu) ➤ Adnoddau ysgrifennu ➤ Geiriaduron ➤ Ipad

Sesiwn Gloi	➤ Gofynnir i'r disgyblion i rannu unrhyw ffeithiau a ddysgwyd am rygbi'r chwe gwlad ➤ Canmol y plant am eu hymdrech	➤ Ymateb ar lafar wrth rannu'r ffeithiau a ddysgwyd am rygbi'r chwe gwlad	
--------------------	--	---	--

